

Jane Hutt AC/AM  
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip  
Leader of the House and Chief Whip



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref JH/00038/17

Huw Irranca-Davies AC  
Aelod Cynulliad Ogwr  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

Huw.Irranca-Davies@cynulliad.cymru

8 Mehefin 2017

Annwyl *Huw*,

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 11 Mai ynglŷn â Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Datganiadau Breinio) (Cymru) 2017 a chywirdeb testunau Cymraeg a Saesneg deddfwriaeth.

Ni ddylai deddfwriaeth gynnwys unrhyw gamgymeriadau cyfreithiol na thechnegol nac unrhyw wendidau drafftio. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hyn, wrth reswm.

Caiff holl offerynnau statudol Llywodraeth Cymru eu paratoi gan gyfreithwyr ar sail cyfarwyddiadau polisi. Bydd cyfreithiwr yn gwirio ac yn adolygu'r fersiynau drafft cyn eu cyflwyno i'w cyfieithu gan dîm sy'n arbenigo mewn cyfieithu deddfwriaeth, dan arweiniad leithydd Deddfwriaethol. Bydd y cyfreithwyr yn trafod yn rheolaidd â'r cyfieithwyr deddfwriaethol wrth baratoi'r testun Cymraeg, er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr effaith gyfreithiol a fwriedir, a bod y testun Cymraeg a Saesneg yn cyfleu'r effaith honno'n briodol. Yna caiff y testun dwyieithog drafft sy'n deillio o'r broses hon ei olygu ymhellach. Aelod o'r tîm golygu arbenigol, dan arweiniad y Golygydd Testun Cyfreithiol Dwyieithog, fydd yn gwneud hyn (neu mewn rhai achosion, un o gyfreithwyr Llywodraeth Cymru sydd â chryn arbenigedd a phrofiad o ddrafftio cyfreithiol dwyieithog). Wedi hynny, bydd y cyfreithiwr cyfrifol yn clirio'r fersiwn derfynol.

Ond er gwaethaf y prosesau hyn a'r buddsoddiad helaeth yn ein gallu i ymdrin yn broffesiynol â deddfwriaeth ddwyieithog, mae mân anghysondebau yn gallu llithro i'r gwaith. Dengys ein dadansoddiad mai cymharol brin yw'r achosion hyn. Mae sawl dewis o ran y

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru)  
[Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales](mailto:Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ffordd rydym yn delio ag anghysondebau o'r fath, wrth gwrs, ac mae'r Pwyllgor wedi bod o gymorth mawr inni wrth drafod y dewisiadau hynny mewn achosion unigol.

Yn wir, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y Pwyllgor yn cyflawni swyddogaeth graffu bwysig, a bod craffu o'r fath yn cyfrannu'n fawr at sicrhau ansawdd yr holl is-ddeddfwriaeth ddwyieithog sy'n cael ei llunio bob blwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru yn ymdrechu o hyd i wella ei systemau a'i phrosesau, a bydd yn ystyried yr achos hwn fel rhan o'r broses barhaus honno.

Diolch unwaith eto i chi ac aelodau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am dynnu fy sylw at y mater hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at fy nghyd aelod o'r Cabinet, Lesley Griffiths AC, ac at y Cwnsler Cyffredinol.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Jane Hutt', written in a cursive style.

**Jane Hutt AC/AM**

Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Leader of the House and Chief Whip